Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Polisi Mynediad at Wybodaeth

## Taflen wybodaeth

| | |
|---|---|
| I gael cyngor pellach, cysylltwch â: | Swyddog Diogelu Data |
| Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2023 | |

**Rheoli fersiwn**

| Fersiwn y ddogfen | Awdur | Dyddiad cyhoeddi | Newidiadau a wnaed |
|---|---|---|---|
| 1.0 | Alison Palmer | Ionawr 2007 | |
| 2.0 | Alison Palmer | Mai 2011 | Adolygiad arferol |
| 3.0 | Ben Thomas | 28 Tachwedd 2011 | Drafft cychwynnol ar gyfer ymgynghori arno |
| 4.0 | Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth | 14 Ebrill 2014 | Mae'n cynnwys dileu ffi o £10 ar gyfer cais mynediad gwrthrych, cyflwyno rheoliadau amgylcheddol a diweddariad cyffredinol am y polisi Rhyddid Gwybodaeth |
| 4.1 | Dai Williams | 27 Awst 2015 | Adolygu a diweddaru'r logo, y cynnwys a chyflawni asesiad o effaith ar gydraddoldeb. |
| 4.2 | Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth | 06 Awst 2018 | Adolygu yn dilyn cyflwyno'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. |
| 5.0 | Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth | Gorffennaf 2021 | Gwneud diwygiadau i naws y llais o ganlyniad i adolygu polisi – hefyd, diweddaru gwybodaeth am ddeddfwriaeth, symleiddio gwybodaeth am geisiadau mynediad gwrthrych (a gwahanu'r ffurflen rhag y polisi), ac ychwanegu manylion cyswllt pellach. |
| 6.0 | Robert Gairey | Tachwedd 2023 | Diweddariad technegol |

**Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb**

Cynhaliwyd asesiad o resymwaith busnes ac mae'r polisi hwn yn cyfrannu at amcanion strategol ac egwyddorion cyflawni Estyn.

Yn unol ag Asesiad Estyn o Effaith ar Gydraddoldeb, cynhaliwyd asesiad cychwynnol o effaith sgrinio ac ystyrir nad yw'r polisi hwn yn cael effaith niweidiol ar sail y naw nodwedd warchodedig fel a ddiffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


**Cyflwyniad** **1**

Datganiad polisi 1

**Cwmpas y polisi** **2**

**Y Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016** **3**

Beth yw egwyddorion y Rheoliad? 3
Pa fath o wybodaeth sy'n cael ei diogelu gan y Rheoliad? 3
Gwneud cais am eich data personol 4
Esemptiadau rhag y Rheoliad 5
Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu data personol o dan y Rheoliad 5
Pwy sydd â hawliau ac ymrwymiadau o dan y Rheoliad? 6
Rolau a chyfrifoldebau 7
Hyfforddiant 8
Monitro, adolygu a gwerthuso 9
Adborth a chwynion 9

**Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004** **10**

Amserlenni 10
Esemptiadau a phrawf lles y cyhoedd 10
Esemptiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 11
Esemptiadau o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 11
Ffïoedd 13
Gwneud cais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 14
Gwneud cais o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 14

**Sut i gysylltu â ni** **15**

Mynediad at wybodaeth 15

**Mwy o wybodaeth** **15**

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth 15

# Cyflwyniad

## Datganiad Polisi

1 Mae'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016 (y Rheoliad) yn disgrifio sut y dylid ymdrin â data a gwybodaeth am bobl. Mae Deddf Diogelu Data 2018, a ddisodlodd Ddeddf Diogelu Data 1998, yn ei ategu a dyma yn y Deyrnas Unedig sy'n gweithredu'r Rheoliad. Mae'r Rheoliad a Deddf Diogelu Data 2018 yn cynnwys yr hawl i bobl gael at eu data personol. Maent yn cyflwyno rheolau ar gyfer prosesu gwybodaeth bersonol ac maent yn berthnasol i ddata personol sy'n cael ei gadw mewn ffeiliau papur strwythuredig ynghyd â data sy'n cael ei gadw'n electronig.

2 Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn rhoi hawl mynediad cyffredinol i bob math o wybodaeth 'gofnodedig' sy'n cael ei chadw gan awdurdodau cyhoeddus, yn amodol ar rai esemptiadau, ac mae'n gosod nifer o ymrwymiadau ar awdurdodau cyhoeddus. Bwriad yr esemptiadau yw diogelu gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth arall lle gallai ei datgelu wneud niwed i les y Wladwriaeth neu drydydd partïon.

3 Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a'r Ddeddf Diogelu Data yn dod o dan bennawd hawliau gwybodaeth ac yn cael eu rheoleiddio gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

4 Mae ein cynllun cyhoeddi wedi cael ei ddatblygu gan ddefnyddio model arfer orau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Rydym yn ei ddiweddaru'n gyson, er enghraifft pan gaiff polisi newydd ei gyflwyno neu pan gaiff polisi cyfredol ei adnewyddu.

5 Mae Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn darparu mynediad cyhoeddus yn benodol at wybodaeth amgylcheddol sy'n cael ei chadw gan awdurdodau cyhoeddus.

6 Mae'r polisi hwn yn nodi'r trefniadau sydd ar waith gennym i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Deddfau a'r Rheoliadau uchod.

## Cwmpas y polisi hwn

7 Rydym yn ymroi i gydymffurfio'n llawn â'r Rheoliad. Mae'r Rheoliad yn berthnasol i systemau ffeilio papur ac electronig lle y gellir cael at ddata personol yn ôl meini prawf penodol. Mae data personol yn cwmpasu ffeithiau a barn am unigolyn.

8 Rydym yn ymroi i gydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, a phrif nodweddion y Ddeddf sy'n effeithio ar weithdrefnau Estyn yw:

- hwyluso hawl mynediad cyffredinol at wybodaeth sy'n cael ei chadw gennym wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus, yn amodol ar rai amodau ac esemptiadau
- mae'n rhaid datgelu gwybodaeth, oni bai bod lles y cyhoedd wrth gynnal yr esemptiad yn gorbwyso lles y cyhoedd yn sgil datgelu'r wybodaeth
- mabwysiadu cynllun ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth. Bydd y cynllun, y mae'n rhaid i'r Comisiynydd Gwybodaeth ei gymeradwyo, yn pennu dosbarthiadau'r wybodaeth yr ydym yn bwriadu ei chyhoeddi, y dull cyhoeddi ac a yw'r wybodaeth ar gael i'r cyhoedd am ddim neu yn sgil talu ffi.

9 Rydym yn ymroi i gydymffurfio'n llawn â'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Mae'r Rheoliadau yn darparu mynediad cyhoeddus at wybodaeth amgylcheddol sy'n cael ei chadw gennym mewn dwy ffordd:

- rhaid i ni drefnu bod gwybodaeth amgylcheddol ar gael yn rhagweithiol
- fel aelod o'r cyhoedd, mae'r hawl gennych i ofyn am wybodaeth amgylcheddol gennym

10 Mae'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn berthnasol i'r wybodaeth amgylcheddol a gedwir gennym yn unig. Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn rhoi mynediad i bobl at y rhan fwyaf o fathau eraill o wybodaeth a gedwir gennym.

## Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016

### Beth yw egwyddorion y Rheoliad?

11 Byddwn yn gyfrifol am gydymffurfio, ac yn gallu dangos ein bod yn cydymffurfio, â'r egwyddorion diogelu data sy'n amlinellu'r prif gyfrifoldebau i sefydliadau er mwyn sicrhau bod data:

a) yn cael ei brosesu'n gyfreithlon, yn deg ac yn dryloyw yn gysylltiedig ag unigolion
b) yn cael ei gasglu at ddibenion penodedig, clir a dilys ac na chaiff ei brosesu ymhellach mewn modd sy'n anghydnaws â'r dibenion hynny; nid ystyrir bod prosesu ymhellach at ddibenion archifo er budd y cyhoedd, at ddibenion ymchwil gwyddonol neu hanesyddol, neu at ddibenion ystadegol yn anghydnaws â'r dibenion cychwynnol
c) yn ddigonol, yn berthnasol ac yn gyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol at y dibenion y caiff y data ei brosesu
ch) yn gywir a, lle bo'r angen, yn gyfredol; rhaid cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod data personol sy'n anghywir, o ystyried at ba ddibenion y caiff ei brosesu, yn cael ei ddileu neu ei gywiro yn ddi-oed
d) na chedwir data mewn fformat sy'n caniatáu am adnabod gwrthrychau data am gyfnod hwy na'r hyn sy'n angenrheidiol at ddibenion prosesu'r data personol; caiff data personol ei storio am gyfnodau hwy i'r graddau ag y bydd y data personol yn cael ei brosesu yn unig at ddibenion archifo er budd y cyhoedd, at ddibenion ymchwil gwyddonol neu hanesyddol, neu at ddibenion ystadegol, yn amodol ar weithredu'r mesurau technegol a sefydliadol priodol sy'n ofynnol o dan y Rheoliad er mwyn diogelu hawliau a rhyddid unigolion
dd) ei brosesu mewn modd sy'n sicrhau diogelwch priodol y data personol, gan gynnwys ei amddiffyn rhag unrhyw brosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon a rhag colled, difrod neu niwed damweiniol, gan ddefnyddio mesurau technegol neu sefydliadol priodol ac ystyried datblygiadau technolegol pellach, gan gynnwys amgryptio, wrth asesu gweithredu unrhyw fesurau diogelwch newydd

Yn ogystal, mae'r rheolwr data yn gyfrifol am gydymffurfio â'r egwyddorion uchod, ac yn gallu dangos hynny, ac yn sicrhau bod prosesau a chofnodion priodol ar waith i arddangos y cydymffurfio.

### Pa fath o wybodaeth sy'n cael ei diogelu gan y Rheoliad?

12 **Data personol** – unrhyw wybodaeth sy'n gysylltiedig ag unigolyn, y mae'n bosibl ei adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol trwy'r data. Er enghraifft: enwau, dyddiadau geni, cyfeiriadau, cyfeiriadau e-bost, manylion cyflogaeth, manylion ariannol, hepgoriadau, manylion dosbarth neu flwyddyn a deilliannau addysgol.

13 **Data personol sensitif** – er enghraifft: hil, tras ethnig, cyfeiriadedd rhywiol, gwybodaeth diogelu, safbwyntiau gwleidyddol a chrefyddol, gwybodaeth am iechyd (e.e. anghenion dysgu ychwanegol).

14 Ni chaiff data personol yn ymwneud â throseddau ac euogfarnau ei ystyried yn ddata personol sensitif, ond gallai mesurau diogelwch ychwanegol fod yn berthnasol i brosesu'r data hwnnw.

**Gwneud cais am eich data personol**

15 O dan y Rheoliad, bydd hawl gennych gael:

- cadarnhad bod eich data'n cael ei brosesu
- mynediad at eich data personol
- gwybodaeth atodol arall – mae hyn yn cyd-fynd i raddau helaeth â'r wybodaeth y dylid ei darparu mewn hysbysiad preifatrwydd

16 Mae'r Rheoliad yn caniatáu i chi gael mynediad at eich data personol fel eich bod yn gwybod am gyfreithlondeb prosesu'ch data ac yn gallu'i wirio. Yr enw ar hyn yw 'hawl mynediad'.

17 Pan gaiff data personol ei brosesu'n electronig, byddwch yn gallu gofyn am gopi o'ch data personol mewn fformat electronig, strwythuredig, o dan rai amgylchiadau. Hefyd, gallwch ofyn am i'ch data personol gael ei drosglwyddo i sefydliad neu i fusnes arall.

18 Rhaid i ni ddarparu gwybodaeth o leiaf o fewn mis o dderbyn eich cais. Gellir ymestyn y cyfnod hwn ddeufis arall os bydd ceisiadau yn gymhleth neu'n niferus. Os bydd angen i ni ymestyn y dyddiad olaf ar gyfer ymateb, byddwn yn cysylltu â chi o fewn mis o gael y cais i esbonio pam mae angen yr estyniad.

19 Ni chodir tâl am geisiadau, ond os bydd eich ceisiadau yn amlwg yn ddi-sail, yn ormodol neu'n ailadroddus, gallwn:

- godi ffi am gostau gweinyddol darparu'r wybodaeth; neu
- wrthod ymateb.

20 Os byddwn yn gwrthod ymateb i gais, byddwn yn esbonio'r rheswm dros hynny ac yn rhoi gwybod ichi am eich hawl i gwyno i'r awdurdod goruchwylio a'ch hawl i ddatrysiad barnwrol o leiaf o fewn mis.

21 Mae'n rhaid i'ch cais:

- gael ei wneud yn ysgrifenedig (trwy lenwi Cais Mynediad Gwrthrych, yn ddelfrydol)
- rhoi tystiolaeth o'ch manylion adnabod
- disgrifio'n glir y wybodaeth y gofynnwch amdani

22 Os ydych yn amau y gall y wybodaeth rydym ni'n ei dal amdanoch ddatgelu manylion rhywun arall hefyd, hwyrach y byddwch am gael cytundeb yr unigolyn arall hwnnw i'ch caniatáu i dderbyn gwybodaeth o'r fath a'i anfon gyda'ch cais.

23 Os ydych yn aelod presennol o staff Estyn ac yr hoffech wneud cais am wybodaeth amdanoch eich hun, cysylltwch ag Adnoddau Dynol yn y lle cyntaf, a fydd yn gallu rhoi gwybod i chi am y broses.

24 Lle y byddwn yn prosesu swm mawr o wybodaeth amdanoch, mae'r Rheoliad yn caniatáu i ni ofyn ichi bennu pa wybodaeth y mae eich cais yn ymwneud â hi.

25 Mae'n ddyletswydd arnom sicrhau bod y wybodaeth a gadwn am unigolion yn gywir ac yn gyfredol. Fodd bynnag, os nodwch ein bod yn dal gwybodaeth anghywir neu anghyflawn amdanoch, mae gennych yr hawl i ofyn ein bod yn cywiro'r data. Gwnawn hyn o fewn 30 niwrnod ar y mwyaf i'ch cais, onid ystyriwn fod eich cais yn ddi-sail neu'n ormodol. Hefyd, gallem ychwanegu datganiad pellach at eich cofnod i egluro gwybodaeth. Pan fydd eich gwybodaeth wedi'i chywiro, bydd unrhyw wybodaeth anghywir yn cael ei dileu.

## Esemptiadau o'r Rheoliad

26 Mae esemptiadau rhag y rheoliadau i ganiatáu am amgylchiadau arbennig. Gallwch ddarllen rhagor am y rhain ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth .

## Sail gyfreithlon ar gyfer prosesu data personol o dan y Rheoliad

27 Mae'n rhaid bod gennych sail gyfreithlon ddilys er mwyn prosesu data personol. Mae chwe sail gyfreithlon ar gael ar gyfer prosesu. Nid oes un sail unigol yn 'well' nac yn bwysicach na'r lleill – bydd y sail sy'n fwyaf priodol i'w defnyddio yn dibynnu ar eich diben â'ch perthynas â'r unigolyn. Mae'r rhan fwyaf o seiliau cyfreithlon yn gofyn bod y prosesu yn 'angenrheidiol'. Dyma'r seiliau cyfreithlon:

a) Cydsyniad: mae'r unigolyn wedi rhoi cydsyniad clir i chi brosesu ei ddata personol at ddiben penodol

b) Contract: mae'r prosesu'n angenrheidiol ar gyfer contract sydd gennych gyda'r unigolyn, neu oherwydd bod yr unigolyn wedi gofyn i chi gymryd camau penodol cyn ymrwymo i gontract

c) Rhwymedigaeth gyfreithiol: mae'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn i chi gydymffurfio â'r gyfraith (nid yw hyn yn cynnwys rhwymedigaethau cytundebol)

d) Buddion hanfodol: mae'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn amddiffyn bywyd rhywun

e) Gorchwyl cyhoeddus: mae'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn i chi gyflawni gorchwyl er budd y cyhoedd neu ar gyfer eich swyddogaethau swyddogol, ac mae gan y gorchwyl neu'r swyddogaeth sylfaen glir yn ôl y gyfraith

f) Buddiannau dilys: mae'r prosesu'n angenrheidiol er eich buddiannau dilys chi neu fuddiannau dilys trydydd parti, oni bai bod rheswm da dros amddiffyn data personol yr unigolyn sy'n drech na'r buddiannau'r dilys hynny. (Ni all hyn fod yn gymwys os ydych chi'n awdurdod cyhoeddus sy'n prosesu data er mwyn cyflawni'ch gorchwylion swyddogol)

28 Pan fydd sefydliad wedi sefydlu sail gyfreithlon, rhaid ei chofnodi mewn hysbysiad preifatrwydd.

29 Mae'r sail gyfreithlon a nodir yn effeithio'n uniongyrchol ar ba hawliau y gall unigolyn eu harfer o ran y data.

**Pwy sydd â hawliau ac ymrwymiadau o dan y Rheoliad?**

30 Mae'r Rheoliad yn rhoi'r hawliau canlynol i unigolion:

1 Yr hawl i gael gwybod
2 Hawl mynediad
3 Yr hawl i gywiro
4 Yr hawl i ddileu
5 Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
6 Yr hawl i gludadwyedd data
7 Yr hawl i wrthwynebu
8 Hawliau'n gysylltiedig â phenderfynu a phroffilio awtomataidd.

31 Mae'r Rheoliad yn diogelu hawliau unigolion y mae'r data yn ymwneud â nhw (gwrthrychau data), yn bennaf trwy osod dyletswyddau ar y bobl hynny sy'n penderfynu sut a pham mae data o'r fath yn cael ei brosesu (rheolwyr data). Mae rhestr o dermau, eu hystyr a'u harwyddocâd i'w gweld isod:

32 Mae '**prosesu**' yn ymwneud ag unrhyw beth a wneir gyda data, gan gynnwys ei gasglu, ei gofnodi, ei storio, ei ddefnyddio, ei ddadansoddi, ei gyfuno, ei ddatgelu neu ei ddileu.

33 Ystyr **gwrthrych data** yw unigolyn sy'n wrthrych data personol. I ni, bydd hyn, er enghraifft, yn cynnwys manylion staff, arolygwyr ychwanegol, aseswyr/arolygwyr cymheiriaid, arolygwyr annibynnol ac unrhyw fanylion personol sy'n cael eu dal yn ystod arolygiadau neu arolygon.

34 Mae rheolwr **data** yn pennu at ba ddibenion y mae neu y bydd unrhyw ddata personol yn cael ei brosesu a'r dull prosesu.

35 Ystyr **prosesydd data** mewn perthynas â data personol, yw unrhyw unigolyn (heblaw am rywun sy'n gweithio i'r rheolwr data) sy'n prosesu'r data ar ran y rheolwr data ac yn unol â'i gyfarwyddiadau. Byddai ein proseswyr data yn cynnwys Llywodraeth Cymru fel rhan o gytundebau lefel gwasanaeth, contractwyr a phartneriaid.

36 Mae'r **Comisiynydd Gwybodaeth** yn ddeiliad swydd annibynnol sy'n cael ei benodi gan y Goron i weinyddu a gorfodi'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a deddfwriaeth arall sy'n llywodraethu defnyddio gwybodaeth a mynediad at wybodaeth. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn annibynnol ar y llywodraeth ac mae'n adrodd yn uniongyrchol i Senedd y DU.

37 Mae **hysbysiad gwybodaeth** yn ddogfen gyfreithiol y gall y Comisiynydd Gwybodaeth ei chyflwyno i reolwr data, gan ei wneud yn ofynnol iddo ef neu iddi hi gyflenwi gwybodaeth i'r Comisiynydd fel y gall asesu p'un a yw'r rheolwr data yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ai peidio.

38 Mae'r Rheoliad yn cynnwys darpariaethau sy'n hybu atebolrwydd a llywodraethu. Mae'r rhain yn ategu gofynion tryloywder y Rheoliad. Er bod egwyddorion

atebolrwydd a thryloywder wedi bod yn ofynion sydd ymhlyg yng nghyfraith diogelu data, mae pwyslais y Rheoliad yn cynyddu'u harwyddocâd.

39 Rhaid i ni gydymffurfio â'r egwyddor atebolrwydd. Mae'r egwyddor atebolrwydd yn Erthygl 5(2) y Rheoliad yn gofyn ein bod yn dangos ein bod yn cydymffurfio â'r egwyddorion ac yn datgan yn benodol mai dyma'n cyfrifoldeb ni. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni:

- roi mesurau technegol a sefydliadol priodol ar waith sy'n sicrhau ac yn dangos cydymffurfiad, gan gynnwys polisïau diogelu data mewnol, hyfforddiant staff, archwiliadau manwl o weithgareddau prosesu ac adolygiadau o bolisïau mewnol Adnoddau Dynol
- ystyried datblygiadau technolegol pellach, gan gynnwys amgryptio, wrth asesu rhoi unrhyw fesurau diogelwch newydd ar waith
- cynnal dogfennau perthnasol ynghylch gweithgareddau prosesu
- penodi swyddog diogelu data
- rhoi mesurau ar waith sy'n bodloni egwyddorion diogelu data o'r cychwyn a diogelu data fel anghenraid. Gallai mesurau gynnwys:
  a) lleihau data
  b) rhoi ffugenw
  c) tryloywder
  d) caniatáu i unigolion fonitro prosesu
  e) creu a gwella nodweddion diogelwch yn barhaus
- defnyddio asesiadau effaith diogelu data lle bo'n briodol

## Rolau a chyfrifoldebau

40 **Prif Arolygydd Ei Fawrhydi**, fel Swyddog Cyfrifo Estyn, sydd ag atebolrwydd a chyfrifoldeb cyffredinol am lywodraethu gwybodaeth yn Estyn a'r Prif Arolygydd yn y pen draw sy'n gyfrifol am bennu'r polisïau sy'n berthnasol i'r wybodaeth sy'n cael ei chadw gennym. Mae'r Swyddog Cyfrifo yn rhoi sicrwydd, drwy'r Datganiad Llywodraethu blynyddol, bod pob risg i ni ac i'r wybodaeth a gadwn yn cael eu rheoli a'u lliniaru'n effeithiol.

41 Mae **unigolyn awdurdodedig** Estyn yn rôl y gall Prif Arolygydd Ei Fawrhydi ei dirprwyo i aelodau o'n huwch dîm rheoli. Mae'r unigolyn awdurdodedig yn llunio'r farn am berygl i allu cyflawni materion cyhoeddus yn effeithiol, yn gysylltiedig â phob cais a gawn i ryddhau gwybodaeth. Yn Estyn, y Cyfarwyddwr Strategol fydd yr unigolyn fel arfer.

42 Mae **Cyfarwyddwyr Strategol** yn gyfrifol am sicrhau bod gwybodaeth sy'n cael ei chadw ym meysydd eu cyfrifoldeb yn cydymffurfio'n llawn â'r polisïau a'r gweithdrefnau sy'n cael eu pennu gan y Prif Arolygydd, gan gynnwys gwybodaeth sy'n cael ei phrosesu gan gontractwyr, partneriaid neu gyrff eraill sy'n gweithio o dan gytundeb lefel gwasanaeth.

43 Mae **Rheolwyr** yn gyfrifol am sicrhau bod staff o dan eu rheolaeth yn ymwybodol o'n polisïau, gweithdrefnau ac arweiniad, ac am gadarnhau bod staff yn deall ac yn cymhwyso'r polisïau, y gweithdrefnau a'r arweiniad yn briodol wrth gyflawni eu gwaith bob dydd.

44 Mae'r **holl staff** yn gyfrifol am brosesu gwybodaeth yn unol â'n polisïau, ein gweithdrefnau, ein harweiniad a'n fframwaith llywodraethu gwybodaeth.

45 Mae'r **Swyddog Diogelu Data** yn gyfrifol am oruchwylio'r polisïau a'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i'r Rheoliad, y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Hefyd, mae'n rhoi cyngor i'n staff ar faterion diogelu data.

46 Mae **Swyddogion Gwybodaeth (Swyddog Gwybodaeth y Rheoliad a Swyddog Gwybodaeth y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth)** yn gyfrifol am reoli pob cais am ddatgelu data personol a'r holl geisiadau am fynediad at wybodaeth a gawn. Cânt eu cefnogi gan y Gweinyddwr Gwybodaeth a Swyddogion Achos. Pan fo modd, bydd Swyddog Gwybodaeth y Rheoliad yn rhoi cyngor yn uniongyrchol i staff ar ddiogelu data. Bydd Swyddog Gwybodaeth y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn rhoi cyngor ar faterion rhyddid gwybodaeth neu fel arall yn cyfeirio'r mater at unigolyn fel Perchennog yr Ased Gwybodaeth i gael cyngor.

47 Mae **Swyddogion Achos** yn gyfrifol am weinyddu achosion a bennwyd ynghylch y Rheoliad neu'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Nhw yw'r prif bwynt cyswllt a chyngor ar gyfer achosion unigol, maent yn cydlynu'r broses o adalw unrhyw ddogfennau y gofynnir amdanynt ac yn darparu ymateb llawn i'r sawl a wnaeth y cais.

48 Gellir galw gweithgor mewnol at ei gilydd i drafod a rhoi cyngor i swyddogion achos ar achosion unigol. Mae aelodaeth y grŵp hwn yn cynnwys staff gwasanaethau corfforaethol sydd â phrofiad o'r Rheoliad neu'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Caiff y grŵp ei gadeirio gan Swyddog Gwybodaeth y Rheoliad neu Swyddog Gwybodaeth y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

49 Mae **Swyddog Seiber-ddiogelwch Technoleg Gwybodaeth** (ITCSO) yn gyfrifol am reoli digwyddiadau diogelwch data mewn ymgynghoriad â Swyddog Diogelu Data Estyn.

## Hyfforddiant

50 Byddwn yn darparu hyfforddiant i'r holl staff ar y polisi hwn ac unrhyw weithdrefnau ac arweiniad cysylltiedig. Bydd yr hyfforddiant yn briodol i radd a chyfrifoldebau pob person.

51 Rhaid i'n staff ddarllen y polisïau o fewn ein Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth a chadarnhau eu bod wedi'u darllen a'u deall. Mae pob aelod o staff yn ymdrin â data personol a ddiogelir fel rhan o'u gwaith ac mae'n ofynnol iddynt gwblhau hyfforddiant 'Cyfrifoldeb am Wybodaeth' y Gwasanaeth Sifil bob tair blynedd.

52 Byddwn hefyd yn sicrhau bod contractwyr, neu unrhyw un sy'n gweithio o dan gontractau, cytundebau lefel gwasanaeth a chytundebau partneriaeth yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i ni fel proseswyr data. Byddwn yn sicrhau bod ganddynt fesurau digonol ar waith i sicrhau eu bod yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau yn gymwys.

53 Lle y bo'n angenrheidiol, er enghraifft o ran gwasanaethau TG, rhaid i gontractwyr sicrhau bod y staff neu unrhyw unigolyn arall a benodir ganddynt yn gysylltiedig â'r contract, yn llofnodi cytundeb cyfrinachedd.

54 Mae’n ofynnol i Arolygwyr Ychwanegol dan Gontract ddilyn ein polisi ar gadw cofnodion ar gyfer unrhyw wybodaeth sy’n gysylltiedig â’r arolygiadau y maent yn cymryd rhan ynddynt. Mae’n rhaid i Arolygwyr Ychwanegol dan Gontract gydnabod eu cyfrifoldeb i gydymffurfio â’r gofynion hyn wrth dderbyn contractau arolygu.

## Monitro, adolygu a gwerthuso

55 Rydym yn cadw cofrestr o’r holl geisiadau a gawn am ddatgelu data. Hefyd, rydym yn cadw cofrestr o bob cais am fynediad at wybodaeth a wneir o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a’r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, a’r camau a gymerwyd mewn perthynas â phob cais. Mae Swyddog Gwybodaeth y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn monitro’r gofrestr hon, ac yn adrodd arni i’r Uwch Dîm Rheoli.

56 Mae gennym weithdrefnau ar waith ar gyfer adolygu ein trefniadau ar gyfer gweinyddu a rheoli data personol. Mae’r gweithdrefnau hyn yn cynnwys systemau ar gyfer archwilio ein cydymffurfiaeth â’r Deddfau a chydymffurfiaeth y rhai sy’n prosesu data ar ein rhan.

57 Byddwn yn cofrestru pob cwyn a gawn ynghylch ein trefniadau diogelu data, rhyddid gwybodaeth a rheoliadau gwybodaeth amgylcheddol a byddwn yn defnyddio unrhyw bwyntiau dysgu sy’n deillio o’r cwynion hyn i wella ein polisïau, gweithdrefnau ac arweiniad diogelu data.

58 Byddwn yn adolygu’r polisi hwn i sicrhau ei fod yn parhau’n gyfredol ac yn effeithiol, a’i fod yn adlewyrchu arfer dda sy’n dod i’r amlwg a chyfarwyddiadau cyfreithiol newydd.

## Adborth a chwynion

59 Os nad ydych yn fodlon â’r penderfyniad ynglŷn â’ch cais am wybodaeth o dan y Rheoliad, y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu’r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, mae gennych hawl i ofyn i ni adolygu’r penderfyniad. Dylid anfon eich cais am adolygiad at y Rheolwr Cwynion o fewn 20 diwrnod gwaith o’r dyddiad ar ein llythyr penderfyniad. Bydd uwch reolwr yn adolygu ein hymateb i’ch cais mynediad gwrthrych.

60 I gael mwy o wybodaeth, cyfeiriwch at ein gweithdrefn adborth a chwynion.

## Diffiniadau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004

### Amserlenni

61 Os byddwch yn gwneud cais am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, byddwn yn ymateb i chi cyn pen 20 diwrnod gwaith i'r cais gyrraedd.

62 Mae rhai eithriadau i'r amserlen hon fel a ganlyn:

- os oes rhaid i ni drosglwyddo'r cais i awdurdod cyhoeddus arall gan nad ydym yn cadw'r wybodaeth y gofynnoch amdani; mae'r terfyn amser 20 diwrnod yn dechrau pan fyddant yn derbyn eich cais
- mae'r cais yn aneglur

63 Yn yr achosion hyn, bydd y terfyn amser 20 diwrnod yn dechrau pan fydd yr awdurdod arall yn derbyn eich cais, neu pan fyddwch yn egluro'ch cais.

64 Hefyd, gall fod estyniad:

- os oes rhaid ni gymhwyso prawf lles y cyhoedd, sy'n caniatáu i ni ymestyn y terfyn amser (nid yw hyn yn berthnasol i eithriadau o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol)
- os oes ffi i'w thalu, ac anfonir hysbysiad ffïoedd atoch o fewn yr 20 diwrnod gwaith

### Esemptiadau/eithriadau a phrawf lles y cyhoedd

65 Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn rhoi hawliau i'r cyhoedd gael mynediad at wybodaeth sy'n cael ei dal gan awdurdodau cyhoeddus. Mae gan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth nifer o esemptiadau sy'n caniatáu i awdurdodau cyhoeddus atal rhywfaint o'r wybodaeth y gofynnir amdani, neu'r cyfan ohoni, pan fo rheswm cyfiawnadwy yn bodoli. Mae Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn cynnwys nifer o eithriadau sy'n caniatáu i awdurdodau cyhoeddus wrthod darparu gwybodaeth y gofynnir amdani, eto lle mae rheswm cyfiawnadwy yn bodoli.

66 Os oes amodau yn perthyn i esemptiad, rhaid i'n person awdurdodedig bwyso a mesur y lles i'r cyhoedd o gynnal yr esemptiad (neu eithriad yn achos y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol) o gymharu â'r lles i'r cyhoedd o'i ddatgelu. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddo benderfynu p'un a oes mwy o les i'r cyhoedd o gynnal yr esemptiad ac atal y wybodaeth, na datgelu'r wybodaeth. Mae rhagor o arweiniad ar hyn ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

## Esemptiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth

67 **Esemptiadau Absoliwt –** Os oes esemptiad absoliwt yn berthnasol, nid oes rhaid rhyddhau'r wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac nid yw prawf lles y cyhoedd yn berthnasol.

| | |
|---|---|
| Adran 21 | Gwybodaeth sy'n rhesymol hygyrch i'r ymgeisydd trwy ddulliau eraill |
| Adran 23 | Gwybodaeth sy'n cael ei chyflenwi gan gyrff diogelwch neu wybodaeth sy'n gysylltiedig â nhw |
| Adran 32 | Gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yng nghofnodion llysoedd ac ati |
| Adran 34 | Braint Seneddol |
| Adran 36 | Cyflawni materion cyhoeddus yn effeithiol (mae'r adran hon yn berthnasol i wybodaeth sy'n cael ei chadw gan Dŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi yn unig) |
| Adran 40 | Gwybodaeth mewn data personol |
| Adran 41 | Gwybodaeth sy'n cael ei rhoi yn gyfrinachol |
| Adran 44 | Gwaharddiadau ar ddatgelu |

68 **Esemptiadau Amodol** – hyd yn oed os oes un o'r esemptiadau canlynol yn berthnasol, rhaid datgelu'r wybodaeth oni bai bod y lles i'r cyhoedd yn sgil ei datgelu yn fwy na'r lles i'r cyhoedd o'i rhyddhau.

| | |
|---|---|
| Adran 22 | Gwybodaeth y bwriedir ei chyhoeddi yn y dyfodol |
| Adran 24 | Yr esemptiad diogelwch gwladol |
| Adran 26 | Amddiffyn |
| Adran 27 | Cysylltiadau rhyngwladol |
| Adran 28 | Cysylltiadau yn y Deyrnas Unedig |
| Adran 29 | Yr economi |
| Adran 30 | Ymchwiliadau |
| Adran 31 | Gorfodi'r gyfraith |
| Adran 33 | Swyddogaethau Archwilio |
| Adran 35 | Llunio polisi |
| Adran 36 | Cyflawni materion cyhoeddus yn effeithiol (heblaw am faterion a ddaw o dan yr eithriad absoliwt yn A36) |
| Adran 37 | Gohebiaeth â'i Mawrhydi a dyfarnu anrhydeddau |
| Adran 38 | Iechyd a diogelwch |
| Adran 39 | Gwybodaeth amgylcheddol sy'n hygyrch drwy gyfrwng y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol |
| Adran 42 | Braint broffesiynol gyfreithiol |
| Adran 43 | Buddiannau masnachol |

## Eithriadau o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

69 Mae'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn cynnwys eithriadau o'r ddyletswydd i sicrhau bod gwybodaeth ar gael, ond mae rhagdybiaeth o blaid datgelu. Mae rhai o'r eithriadau yn ymwneud â chategorïau gwybodaeth, er enghraifft, dogfennau anorffenedig a gohebiaeth fewnol. Mae eithriadau eraill wedi'u seilio ar y niwed a fyddai'n deillio o ddatgelu gwybodaeth, er enghraifft, pe bai rhyddhau'r wybodaeth yn

cael effaith niweidiol ar gysylltiadau rhyngwladol neu hawliau eiddo deallusol. Mae eithriad ar gyfer data personol hefyd pe bai ei ddarparu'n mynd yn groes i'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

70 O dan Ran 3 y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, gall awdurdod cyhoeddus wrthod datgelu gwybodaeth amgylcheddol os gofynnir amdani:

a) os oes eithriad i'w datgelu yn berthnasol o dan baragraffau 12(4) neu 12(5)
b) os yw'r lles i'r cyhoedd o gynnal yr eithriad yn fwy na'r lles i'r cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth, yn holl amgylchiadau'r achos

| | | |
|---|---|---|
| 12(4) | Gall awdurdod cyhoeddus wrthod datgelu gwybodaeth i'r graddau: | |
| | (a) | nad yw'n cadw'r wybodaeth honno pan ddaw'r cais i law |
| | (b) | bod y cais am wybodaeth yn amlwg yn afresymol |
| | (c) | bod y cais am wybodaeth wedi'i ffurfio mewn modd rhy gyffredinol ac mae'r awdurdod cyhoeddus wedi cydymffurfio â rheoliad 9 |
| | (ch) | bod y cais yn ymwneud â deunydd sydd wrthi'n cael ei gwblhau o hyd, dogfennau anorffenedig neu ddata anghyflawn; neu |
| | (d) | bod y cais yn cynnwys datgelu gohebiaeth fewnol. |
| 12(5) | Pan fyddai datgelu'r wybodaeth yn cael effaith niweidiol ar y canlynol: | |
| | (a) | cysylltiadau rhyngwladol, amddiffyn, diogelwch gwladol neu ddiogelwch cyhoeddus |
| | (b) | cwrs cyfiawnder, achos teg, ymchwiliad troseddol neu ddisgyblaethol |
| | (c) | hawliau eiddo deallusol |
| | (ch) | cyfrinachedd achosion awdurdod cyhoeddus lle darperir cyfrinachedd yn ôl y gyfraith |
| | (d) | cyfrinachedd gwybodaeth fasnachol neu ddiwydiannol lle darperir cyfrinachedd yn ôl y gyfraith i ddiogelu lles economaidd dilys |
| | (dd) | buddiannau unigolyn a ddarparodd wybodaeth: |
| | | (i) lle nad oedd ymrwymiad cyfreithiol ar yr unigolyn hwnnw, ac na ellid bod wedi rhoi unrhyw ymrwymiad cyfreithiol ar yr unigolyn hwnnw i fod wedi darparu'r wybodaeth, i'r awdurdod cyhoeddus hwnnw neu unrhyw awdurdod cyhoeddus arall |
| | | (ii) ni wnaeth yr unigolyn gyflenwi'r wybodaeth mewn amgylchiadau lle mae gan yr awdurdod cyhoeddus hawl i ddatgelu'r wybodaeth ar wahân i'r rheoliadau hyn ac |
| | | (iii) nid yw'r unigolyn wedi rhoi caniatâd i'r wybodaeth gael ei datgelu |
| | (e) | diogelu'r amgylchedd y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef |
| 13 | | Data personol trydydd partïon |

**Ffioedd**

71 Byddwn yn talu mwyafrif y costau ar gyfer cydymffurfio â cheisiadau am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Fodd bynnag, mae hawl gennym wrthod ateb ceisiadau am wybodaeth pe byddai cost cydymffurfio yn fwy na'r 'terfyn priodol', fel y caiff ei amlinellu yn Rheoliadau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data (Terfyn a Ffioedd Addas) 2004.

72 Pan fyddwn yn amcangyfrif cost cydymffurfio â chais am wybodaeth, byddwn yn ystyried amser staff (ar gyfradd o £25 yr awr) sydd ynghlwm wrth ddarganfod a ydym yn cadw'r wybodaeth, dod o hyd i leoliad unrhyw ddogfennau sy'n cynnwys y wybodaeth a'u hadalw, a thynnu'r wybodaeth o'r dogfennau hyn.

73 Pan amcangyfrifwn fod y gost islaw £450 (y 'terfyn priodol'), ni chodir tâl.

74 Pe byddai cost cydymffurfio â'r cais yn fwy na £450 i ni, gallwn ei wrthod yn gyfan gwbl neu wneud y gwaith am dâl ychwanegol. Yn yr achosion hyn, byddem yn cysylltu â chi i drafod p'un a fyddai'n well gennych addasu'ch cais i leihau'r gost.

75 Yn gyffredinol, ni fyddwn yn rhoi gwybodaeth mewn ymateb i geisiadau â chost sy'n fwy na £450. Os byddwn yn penderfynu cydymffurfio â chais o'r fath, byddwn yn codi tâl am gost cydymffurfio fel y disgrifir uchod, ynghyd â:

- chostau gohebiaeth
- £25 yr awr am amser staff ar gyfer argraffu, copïo neu anfon y wybodaeth

Codir TAW ar y cyfraddau arferol.

76 Lle y dewiswn godi tâl am wybodaeth a gyhoeddir trwy ein cynllun cyhoeddi neu gais am fynediad at wybodaeth, byddwn yn anfon hysbysiad ffioedd atoch yn unol â'r hyn sy'n ofynnol gan adran 9 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Bydd yn ofynnol i chi dalu unrhyw ffïoedd o fewn cyfnod o 3 mis yn dechrau gyda'r diwrnod yr anfonir yr hysbysiad ffïoedd atoch.

77 Os cawn ddau neu fwy o geisiadau cysylltiedig o fewn cyfnod o 60 diwrnod gwaith olynol, naill ai gan unigolyn neu gan ddau neu fwy o unigolion sy'n ymddangos fel petaent yn gweithredu ar y cyd neu ar drywydd ymgyrch, byddwn yn cydgrynhoi costau cydymffurfio â'r ceisiadau. Os yw amcangyfrif costau cydymffurfio â'r ceisiadau yn cael eu rhoi at ei gilydd ac mae'r cyfanswm dros £450, ni fydd ymrwymiad arnom i gydymffurfio ag unrhyw un o'r ceisiadau.

78 Os yw'r cais am wybodaeth yn gais cymysg (er enghraifft mae'n cynnwys cais am wybodaeth bersonol ac am wybodaeth amgylcheddol), byddwn yn ymateb i bob rhan ar wahân. Ni chodir tâl am ddarparu gwybodaeth bersonol i wrthrych y wybodaeth honno o dan delerau'r Rheoliad. Bydd tâl am wybodaeth amgylcheddol yn cael ei godi o dan delerau Rhan 2, adran 8 y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.

**Gwneud cais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth**

79 Mae’n rhaid i’r cais:

- fod yn ysgrifenedig (trwy e-bost neu lythyr)
- cynnwys eich enw
- cynnwys cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth
- rhoi disgrifiad clir o’r wybodaeth y gofynnir amdani

**Gwneud cais o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol**

80 Gellir gwneud ceisiadau ar lafar neu yn ysgrifenedig ond gan fod yn rhaid i ni ymateb i bob cais yn ysgrifenedig, bydd angen eich enw a manylion cyswllt arnom ar gyfer gohebiaeth. Byddwn yn gwirio gyda chi ein bod wedi deall pa wybodaeth sydd ei heisiau arnoch.

## Sut i gysylltu â ni

### Mynediad at wybodaeth

81 **E-bost**: ymholiadau@estyn.llyw.cymru

**Ysgrifennwch at**: Y Swyddog Gwybodaeth
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW
**Ffôn**: 02920 446446

## Mwy o wybodaeth

### Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

82 I gael cyngor annibynnol am fynediad at wybodaeth a materion diogelu data, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Ffôn**: 0303 123 1113 neu 01625 545745
**E-bost**: casework@ico.org.uk

83 I gael mwy o wybodaeth am y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, ewch i wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth https://ico.org.uk